

CYFARFOD	Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu
DYDDIAD	30 Gorffennaf 2020
TEITL	Cyfrifon Terfynol Harbyrau Gwynedd am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020
PWRPAS YR ADRODDIAD	Cyflwyno – <ul style="list-style-type: none"> • Adroddiad Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2019/20, a • Ffurflen datganiadau cyfrifon, wedi'i ardystio, ond yn amodol ar archwiliad
AWDUR	Ffion Madog Evans, Uwch Reolwr Cyllid
AELOD CABINET	Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Cyllid
GWEITHREDIAD	Derbyn a Chymeradwyo'r Cyfrifon

1. GOFYNION ADRODD HARBYRAU

- 1.1 Yn unol â'r gofynion statudol o dan Ddeddf Harbyrau 1964 mae'n rhaid i Wynedd, fel awdurdod harbyrau, ddarparu datganiad cyfrifon blynyddol sy'n ymwneud â gweithgareddau harbwr.
- 1.2 Ystyrir Harbyrau Gwynedd, oherwydd trosiant is na £2.5m, i fod yn gorff llywodraeth leol llai o faint yn unol â'r diffiniad yn y Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018.
- 1.3 Ar gyfer "cyrff llywodraeth leol llai o faint", mae cwblhau ffurflen datganiadau cyfrifon a ddarparwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru yn cwrdd â'r gofynion statudol. Bydd yn destun archwiliad ar wahân, ond nid oes rhaid cynhyrchu datganiadau ariannol statudol llawn (sy'n cydymffurfio gyda Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol "IFRS").

2. CYFRIFON 2019/20

- 2.1 Cyflwynir y Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw am 2019/20 yma fel Atodiad A ar ffurf adroddiad "alldro" syml. Gwelir fod yr harbyrau wedi tanwario (£10,574) gyda'i incwm yn dangos gwarged o £12,539 yn erbyn targed o £175,330. Noder fod y targed wedi ei ostwng £30,000 yn 2019/20 oherwydd y gostyngiad parhaol yn y gofyn am angorfeydd.

- 2.2 Yn Atodiad B, cyflwynir y ffurflen datganiadau cyfrifon am 2019/20, wedi'i chwblhau a'i hardystio cyn yr archwiliad gan Dafydd L Edwards, y Swyddog Cyllid Statudol ar gyfer yr Harbyrau.
- 2.3 Yn dilyn yr ardystiad gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol y cyfeiriwyd ato uchod, roedd y corff ar ran Harbyrau Gwynedd yn ofynnol i gymeradwyo a chyhoeddi'r Ffurflen Flynyddol erbyn 15 Mehefin 2020. Er iddo gael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Gwynedd ar 27 Mai 2020, oherwydd argyfwng COVID-19, nid oedd yn bosib i'r corff gymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol cyn 15 Mehefin 2020.
- 2.4 Mae'r cyfrifon a'r ffurflen wrthi'n cael eu harchwilio gan Deloitte, archwilwyr allanol Cyngor Gwynedd a apwyntwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Os bydd angen newidiadau yn dilyn archwiliad, yna cyflwynir fersiwn diwygiedig i gyfarfod 14 Medi 2020 o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.
- 2.5 Ar ôl archwiliad Deloitte ac unrhyw addasiadau fydd angen, bydd cynrychiolydd yr Archwilydd Cyffredinol yn ardystio'r ffurflen cyn 15 Medi 2020.
- 2.6 Mae Atodiad A yn dangos y cyfrifon refeniw yn unig tra bod y datganiadau cyfrifyddu yn Atodiad B yn cynnwys refeniw a chyfalaf. Nid oedd gwariant cyfalaf gan Harbyrau Gwynedd yn 2019/20.

3. ARGYMHELLIAD

- 3.1 **Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio dderbyn a chymeradwyo'r wybodaeth sydd yn yr atodiadau, sef ;–**
 - Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2019/20 – Atodiad A
 - Ffurflen Flynyddol ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben 31 Mawrth 2020, yn Amodol ar Archwiliad – Atodiad B